Mwynhaodd disgyblion dosbarth 4 gwrs ar geramig yn ddiweddar. Cynhaliwyd y cwrs am dri dydd Iau yn olynol yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Diolchwn i Mr White am yr hyfforddiant, ac mae'r plant yn disgwyl ymlaen yn fawr at dderbyn eu modelau clai. Maent hefyd yn disgwyl canlyniadau eu harbrofion nwy radon gan 'Tastrak Radon Detectors'.

Cynhelir Aelwyd yr Urdd bob nos Lun ar ôl ysgol. Yn ddiweddar cynhaliwyd noswaith drafftiau, a chroesawyd Mr Griffiths a fu'n sôn am gadw gwenyn.

Ar ddydd Iau Chwefror 13, daeth camerâu HTV i'r ysgol i ffilmio cwestiynau ar gyfer y rhaglen 'Sut a Pham'. Gofynnwyd i'r plant baratoi cwestiynau gwyddonol, a chafwyd amryw o gwestiynau diddorol ganddynt. Darlledir y rhaglen tua diwedd mis Mawrth.

Wythnos yma, bydd holl blant yr ysgol yn cael cyfle i weld cynhyrchiad o 'Fantastic Mr Fox' gan Roald Dahl yng Nghanolfan y Celfyddydau. Maent yn edrych ymlaen yn fawr iawn at fynd.

Braf yw nodi fod y pwll nofio ym Mhlas-crug erbyn hyn wedi ailagor. Bydd gan y plant gyfle i ddysgu ac i fwynhau nofio cyn yr haf.

Mae'r Gymdeithas Rhieni-Athrawon yn trefnu Ras Hwyaid ar Ddydd Sadwrn 28 o Fawrth 1992. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw gefnogaeth.